

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Archwilio Perfformiad</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>26 Ebrill 2018</b>
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc/ Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Uwch Reolwr Addysg</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Rheoli Ymddygiad yn Ysgolion Sir Ddinbych</b>

---

### **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r tueddiadau o ran gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o flwyddyn academiaidd 2015-16. Mae hefyd yn cynnwys y data ystadegol cenedlaethol diweddaraf sydd ar gael o flwyddyn academiaidd 2015/16. Bydd Llywodraeth Cymru (LIC) yn cyhoeddi data gwaharddiadau 2016/17 ym mis Gorffennaf 2018.

### **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Penderfynu a yw problem gwaharddiadau byrdymor wedi ei gyfyngu i ysgolion penodol, ac os felly, y rhesymau dros hyn er mwyn gwella perfformiad a sicrhau fod disgyblion y sir yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial, gan ennill y sgiliau cywir i ffynnu.

### **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Craffu a gwneud sylw ar y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad hwn.

### **4. Cyfraddau gwaharddiadau 2015-17**

Mae lleihau eithriadau parhaol a chyfnod penodol yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant i sicrhau gwell darpariaeth addysgol a chanlyniadau i holl blant a phobl ifanc Sir Ddinbych. Mae pob ysgol uwchradd yn defnyddio polisiau ymddygiad tebyg gyda chosbau cyson. Dylai penderfyniad i eithrio dysgwr ond gael ei wneud:

- mewn ymateb i achosion difrifol o dorri polisi ymddygiad yr ysgol; ac
- os byddai caniatáu'r dysgwr i aros yn yr ysgol yn cael effaith niweidiol ar addysg neu les y dysgwr neu eraill yn yr ysgol.

### **Gwaharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio.**

Canran y disgyblion a waharddwyd yn barhaol o ysgolion ac unedau cyfeirio Sir Ddinbych yn 2015-16 oedd 0% a oedd yr un fath â'r 3 blynedd flaenorol ac yn is na chyfartaledd Gogledd Cymru a Chymru o 0.2 %. Mae Sir Ddinbych yn gyfartal 1af

yng Nghymru a Gogledd Cymru ar gyfer y dangosydd hwn yn 2015-16

### **Gwaharddiadau cyfnod penodol (5 diwrnod neu lai) o ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion.**

Sir Ddinbych oedd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau cyfnod penodol o 5 diwrnod neu lai yng Nghymru yn 2015-16 ar 69.3 yng Nghymru (Cyfradd fesul 1000 o ddisgyblion). Mae hyn wedi cynyddu yn sylweddol dros y tair blynedd diwethaf o 31.3 yn 2012-13. Os oes rhaid i ysgolion wahardd disgyblion maent yn cael eu hannog i ddefnyddio gwaharddiadau byrdymor o lai na 5 diwrnod yn hytrach na gwaharddiadau o fwy na 5 diwrnod gan fod rhain yn cael effaith niweidiol ar ddisgyblion.

Gwynedd oedd â'r gyfradd isaf o waharddiadau cyfnod penodol o 5 diwrnod neu lai yn 2015-16, cyfartaledd Cymru yw 30.9. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu gwahaniaethau o ran gwaharddiadau rhwng awdurdodau lleol. Gall gwahaniaethau mewn arferion rheoli ymddygiad mewn awdurdodau lleol effeithio ar y nifer a'r gyfradd o waharddiadau. (Atodiad 1)

### **Gwaharddiadau cyfnod penodol o fwy na 5 diwrnod o ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion.**

Roedd 0.9 o waharddiadau cyfnod penodol fesul 1000 o ddisgyblion o ysgolion Sir Ddinbych yn 2015-16, mae hyn wedi gostwng o 1.6 yn 2014-15. Mae hyn hefyd yn is na chyfartaleddau Gogledd Cymru (2.2) a Chymru (1.4).

Roedd cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol o fwy na 5 diwrnod o ysgolion a gynhelir uchaf yng Ngogledd Cymru. Mae'r cyfraddau gwaharddiadau dros 5 diwrnod isaf yng Ngheredigion (0), a'r rhai uchaf yng Nghonwy (2.5).

Dylid bod yn ofalus wrth gymharu gwahaniaethau o ran gwaharddiadau rhwng awdurdodau lleol. Gall gwahaniaethau mewn arferion rheoli ymddygiad mewn awdurdodau lleol effeithio ar y nifer a'r gyfradd o waharddiadau. Dylid bod yn ofalus hefyd wrth gymharu 2015/16 â blynyddoedd blaenorol gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf i unedau cyfeirio disgyblion gael eu cynnwys yn y ffigyrau. (Atodiadau 2 a 3)

### **Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad**

Pwrpas craidd y gwasanaeth yw cynorthwyo a chynghori ysgolion wrth reoli a chefnogi plant sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn effeithiol. Dyfarnodd arolygiad diweddar Estyn o'r ALI fod y gwasanaeth ymddygiad yn dda. Mae'r gwasanaeth yn darparu tîm medrus iawn a hyblyg sy'n gallu ymateb yn sydyn i angen ysgol am gefnogaeth ac ymyrraeth. Mae'r diben craidd yn cael ei gyflwyno drwy:

- cefnogaeth ac ymyriadau proffesiynol cyflym ac effeithiol wedi eu darparu yn yr ysgol i ddisgyblion (1:1 a grwpiau bychan)
- cyngor a hyfforddiant ar sawl ffurf i staff ysgolion ar strategaethau ac ymyriadau i gefnogi disgyblion.
- Cefnogi i ail integreiddio yn dilyn lleoliad mewn Uned Gyfeirio Disgyblion – trosglwyddo strategaethau ac ymweliadau dilynol / cymorth estyn allan i fesur a oes effaith parhaol.
- Cefnogaeth i drosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd

## **Uned Cyfeirio Disgyblion**

Mae Uned Cyfeirio Disgyblion Sir Ddinbych wedi ei gofrestru fel Ysgol Plas Cefndy. Mae'r prif safle wedi ei leoli yn Ysgol Plas Cefndy yn y Rhyl gyda darpariaeth lloeren cynradd yn Ysgol Brynhyfryd yn Rhuthun. Mae'r Uned yn cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc gydag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, o Gyfnod Allweddol 1-4. Rhaid i blant a gyfeirir am leoliad fod yn hysbys i'r gwasanaeth drwy'r timau estyn allan ac eithrio mewn argyfwng. Mae atgyfeiriadau am leoedd yn dod drwy'r Panel Cyfeirio BSS.

Mae'r ddarpariaeth Unedau Cyfeirio Disgyblion cynradd yn cynnig ymyriadau dwyieithog byrdymor, a'r brif nod yw cefnogi disgyblion i gynnal eu lleoliad prif ffrwd a lleihau eithriadau. Mae'r Unedau Cyfeirio Disgyblion Cynradd yn cynnig y rhaglenni canlynol a ddarperir gan staff addysgu a staff cymorth profiadol:

- Ysgol Dino – rhaglen 10 wythnos am un hanner diwrnod yr wythnos (bore dydd Gwener) ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Gall aelod o'r tîm hefyd ddarparu'r rhaglen hon ar safle'r ysgol prif ffrwd
- Cerrig Camu – rhaglen rhan amser o 4 sesiwn hanner diwrnod yr wythnos (Llun - Iau) am 1 tymor i ddisgyblion CA2.
- Cerrig Bychan – rhaglen rhan amser o 4 sesiwn hanner diwrnod yr wythnos (Llun - Iau) am 1 tymor i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen.

## **Camau i leihau eithriadau o ysgolion.**

Mae'r awdurdod lleol drwy'r BSS yn gweithio gydag ysgolion i ystyried darparu rhagor o ddarpariaeth ar safleoedd ar gyfer materion ymddygiad i gadw disgyblion mewn addysg a lleihau gwaharddiadau 5 diwrnod neu lai. Mae gan yr ALI record gyson dda o reoli dysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio a chael eu gwahardd yn barhaol drwy brotocol symud wedi ei reoli i ysgol arall, pecynnau dysgu pwrpasol a darpariaeth Unedau Cyfeirio Disgyblion. O ganlyniad, ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae ysgolion yn archwilio darpariaeth ac arferion amgen, ni ddylid defnyddio gwaharddiadau os oes datrysiadau gwahanol ar gael, a gallai'r rhain gynnwys:

- mynediad i gyllid Ewropeaidd sylweddol o'r prosiect Ymagwedd Dryloyw at Gostio a Phrisio tan 2022 i ddarparu addysg bwrpasol y tu mewn a'r tu allan i ysgolion i'n disgyblion mwyaf diamddiffyn. Mae 200 o ddisgyblion oed uwchradd o Sir Ddinbych yn derbyn cefnogaeth gan y prosiect hwn ar hyn o bryd.
- mae cefnogaeth i ddisgyblion nad ydynt yn ymateb i gamau'r ysgolion i frwydro ymddieithrio a dadrithiad ac sydd angen ymyrraeth tymor hir yn cael eu darparu gyda rhaglenni cymorth BSS yn yr ysgol.
- darparu dulliau adfer, sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion wneud yn iawn am y niwed sydd wedi ei achosi i ddioddefwr.
- darparu gwaharddiad mewnol y gellir ei ddefnyddio i addasu ymddygiad, mynediad i wasanaethau cymorth ac yn tynnu rhai breintiau oddi arnynt er enghraifft amser egwyl ac amser cinio.

- mae'r broses drosglwyddo a reolir yn caniatáu'r ysgol i drefnu drwy'r awdurdod lleol i'r disgybl symud i ysgol arall addas i gymryd cyfrifoldeb am addysg y dysgwyr.
- mae Darpariaeth Addysg Mewn Coleg (EPIC) yn cynnig cefnogaeth dda ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 drwy gynnig mynediad i ddarpariaeth amgen. Mae dysgwyr yn cael eu cefnogi ar naill ai EPIC neu Sgiliau ar gyfer Astudio Pellach, sydd ill dau'n cael eu cefnogi gan gydlynedd EPIC y gwasanaeth.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y Flaenoriaeth Gorfforaethol o gefnogi pobl ifanc i gael y sgiliau priodol i weithio a ffynnu. Mae angen i'r Aelodau fod yn ymwybodol o berfformiad yr ysgolion a'r ALI yn erbyn meincnodau cenedlaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

*Amherthnasol*

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y [wefan](#), a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

*Sir Ddinbych ffyniannus*

*Sir Ddinbych wydn*

*Sir Ddinbych iachach*

*Sir Ddinbych fwy cyfartal*

*Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol*

*Sir Ddinbych lle mae diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu*

*Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang*

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

*Amherthnasol*

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

*Amherthnasol*

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i herio Penaethiaid a rheolwyr ysgolion i sicrhau bod yr ysgolion yn cymryd y camau gweithredu priodol er mwyn gwella ymddygiad.

Parhau i wella yn erbyn y gostyngiad yng Ngrant Llwybrau Dysgu 14-19 a chyllid Ymagwedd Dryloyw at Gostio a Phrisio Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

## 11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Erthygl 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas ag adolygu amcanion perfformiad a pholisi.

### **Swyddog Cyswllt:**

Uwch Reolwr Addysg

Rhif ffôn: 01824 708027